Tystysgrif Addysg Gyffredinol
General Certificate of Education

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
General Certificate of Secondary Education

LLAWLYFR ASESU MEWNOL

CYFRES MEHEFIN 2011

Yn y llyfryn hwn, ceir gwybodaeth am safoni gwaith a asesir yn fewnol a chyflwyno marciau. Dylid ei ddarllen ar y cyd â llyfrynnau'r CGC 'Cyfarwyddiadau ar gynnal Gwaith Cwrs' a 'Cyfarwyddiadau ar gynnal Asesiadau dan Oruchwyliaeth/Reolaeth'.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud â'r pynciau hynny'n unig lle danfonir gwaith at safonwr.

Ceir cyfarwyddiadau ar wahân i bynciau lle yr asesir gwaith gan safonwr sy'n ymweld â'r ganolfan.

RHAN 1:	CYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL	TUDALEN 6
RHAN 2:	CYFLWYNO MARCIAU A SAMPLAU – SYSTEM A	TUDALEN 12
RHAN 3:	CYFARWYDDIADAU AR LENWI FFURFLENNI C	TUDALEN 15
RHAN 4:	CYFLWYNO MARCIAU A SAMPLAU – SYSTEM B	TUDALEN 18
RHAN 5:	NODIADAU AR BYNCIAU UNIGOL	
	– TGAU	TUDALEN 21
	– UG/SAFON UWCH	TUDALEN 27
RHAN 6:	ARWEINIAD AM DREFNIADAU CONSORTIWM	TUDALEN 28

Gwaith a asesir yn fewnol yr ymdrinnir ag ef yn y llyfryn hwn

TGAU – Hen fanylebau

* yn dynodi'r manylebau hynny sy'n cael eu cynnig am y tro olaf ym mis Mehefin 2011
** yn dynodi'r manylebau hynny sy'n cael eu cynnig am y tro olaf ym mis Tachwedd 2011

Astudiaethau Ffilm	0155/03
Bioleg	0244/01, 0244/02
Cemeg	0246/01, 0246/02
*Cymraeg Ail Iaith (Cwrs Llawn)	0228/05, 0228/06, 0228/11, 0228/12
*Cymraeg Ail Iaith (Cwrs Byr)	0261/05, 0261/06, 0261/07, 0261/12, 0261/13, 0261/14
**Cymraeg: Iaith Gyntaf	0225/05, 0225/06
Ffiseg	0248/01, 0248/02
Gwyddoniaeth	0238/01, 0238/02
Gwyddoniaeth Ychwanegol	0242/01, 0242/02
*Llenyddiaeth Gymraeg	0226/05, 0226/06
*Llenyddiaeth Saesneg	0153/02, 0153/06
**Saesneg	0150/04
*Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	0178/05, 0178/06
*Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr)	0265/03

TGAU Cymhwysol – Hen fanylebau

Gwyddoniaeth Gymhwysol	0671/01, 0673/01
Gwyddoniaeth Gymhwysol Ychwanegol	0681/01
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Cymhwysol	0632/01, 0633/01

TGAU – Manylebau Newydd

ASESIAD DAN REOLAETH

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (cwrs byr)	Uned 2: Astudiaeth a bennir gan y Bwrdd	4932/W1
Almaeneg	Uned 2: Siarad	4262/W1
Astudiaethau Busnes	Ymchwiliad Busnes	4080/02
Astudio'r Cyfryngau	Uned 2: Creu ar gyfer y Cyfryngau: Ymchwilio a Chynhyrchu	4392/W1
Busnes Cymhwysol	Uned 1: Y Busnes a'i Amgylchedd	4701/W1
Busnes Cymhwysol	Uned 3: Pobl mewn Busnes	4703/W1
Celfyddydau Perfformio	Uned 1: Archwilio'r celfyddydau perfformio a'r diwydiant celfyddydau perfformio	4771/W1
Celfyddydau Perfformio	Uned 3: Datblygu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Celfyddydau Perfformio a'r Diwydiant Celfyddydau Perfformio	4773/W1
Cerddoriaeth	Uned 2: Cyfansoddi Cerddoriaeth	4412/W1
Cymraeg	Uned 3: Tasgau Darllen ac Ysgrifennu	4533/W1
Cymraeg Ail Iaith	Uned 2: Llafar ac Ysgrifennu	4552/01
Cymraeg Ail Iaith Cymhwysol	Uned 2: Llafar, Ysgrifennu a Darllen	4562/01
Daeareg	Ymchwiliad Cyfeiriedig – Opsiwn 1	4250/02
Daeareg	Ymchwiliad Cyfeiriedig – Opsiwn 2	4250/03
Daearyddiaeth Manyleb A	Uned 3: Ymholiad Daearyddol	4233/W1
Daearyddiaeth Manyleb B	Uned 3: Ymholiad Daearyddol	4243/W1
Drama	Uned 1: Perfformiad ymarferol dyfeisiedig	4151/W1
Dyniaethau	Uned 4: Themâu a materion cyfoes	4324/W1
Economeg y Cartref: Bwyd a Maeth	Uned 2: Tasgau Ymarferol Bwyd a Maeth	4302/W1
Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn	Uned 2: Astudiaeth Plentyn	4292/W1
Economeg y Cartref: Datblygiad y Plentyn	Uned 3: Tasg yn Canolbwyntio ar Blentyn	4293/W1
Economeg y Cartref: Tecstilau	Uned 2: Tasgau ymarferol Tecstilau a Ffasiwn	4312/W1
Electroneg	Uned 3: Dylunio a Gwireddu System Electronig	4163/W1
Ffrangeg	Uned 2: Siarad	4222/W1
Hamdden a Thwristiaeth	Uned 1: Darpariaeth Hamdden a Thwristiaeth mewn ardal benodol	4761/W1
Hamdden a Thwristiaeth	Uned 3: Cyrff Hamdden a Thwristiaeth	4763/W1
Hanes Llwybr A a B	Uned 4: Ymchwiliad i fater o ddadl neu wrthdaro hanesyddol	4286/W1
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Uned 1: Iechyd, Gofal Cymdeithasol a gwasanaethau plant	4721/W1
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Uned 4: Hybu iechyd a lles	4724/W1
Llenyddiaeth Gymraeg	Uned 3: Tasgau Ysgrifennu	4543/W1
Lletygarwch ac Arlwyo	Uned 1: Sgiliau Arlwyo	4731/W1
Lletygarwch ac Arlwyo	Uned 3: Sgiliau Lletygarwch	4741/W1
Paratoi at Fywyd Gwaith (cwrs byr)	Uned 2: Profiad Gwaith a Menter	4922/W1
Sbaeneg	Uned 2: Siarad	4522/W1
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Uned 2: Datrys Problemau gyda TGCh	4332/W1

Tystysgrif Addysg Gyffredinol

UG – codau pwnc ac opsiwn

Addysg Gorfforol	PE1	(1311/W1)
Astudiaethau Ffilm	FM1	(1181/W1)
Astudio'r Cyfryngau	MS2	(1292/W1)
Busnes Cymhwysol	ABUS2	(1602/W1)
Busnes Cymhwysol	ABUS3	(1603/W1)
Busnes Cymhwysol	ABUS4	(1604/W1)
Cemeg Ymarferol	CH3b	(1093/W2)
Cerddoriaeth Cyfansoddi	MU2	(1302/W1)
Cyfrifiaduro	CG2	(1102/W1)
Cymraeg: Ail Iaith	CA2	(1382/01)
Cymraeg: Iaith Gyntaf	CY2	(1372/W1)
Daeareg	GL2a	(1212/W1)
Daeareg	GL2b	(1212/W2)
Drama	DA1	(1121/W1)
Datblygiad y Byd	WD2	(1392/W1)
Electroneg ET3	ET3	(1143/W1)
Ffiseg	PH3	(1323/W1)
Gwyddoniaeth Gymhwysol	ASC2	(1662/W1)
Gwyddoniaeth Gymhwysol	ASC3	(1663/W1)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HSC2	(1622/W1)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HSC3	(1623/W1)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HSC4	(1624/W1)
Llenyddiaeth Saesneg	LT2	(1172/01)
Saesneg Iaith	LG2	(1152/01)
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	LL2	(1162/01)
Teithio a Thwristiaeth	T&T2	(1682/W1)
Teithio a Thwristiaeth	T&T4	(1684/W1)
TGCh Cymhwysol	AICT2	(1642/W1)
TGCh Cymhwysol	AICT4	(1644/W1)
TGCh	IT2	(1242/W1)

D.S. Cyhoeddir cyfarwyddiadau ar wahân ar gyfer Bioleg BY3 (1073/W1) a Chemeg CH3a (1093/W1) gan eu bod yn cael eu marcio'n allanol. Dylid cael cyfarwyddiadau ar wahân ar gyfer Celf a Dylunio gan CBAC.

Tystysgrif Addysg Gyffredinol

U2 – codau pwnc ac opsiwn

Addysg Gorfforol	PE3	(1313/W1)
Astudiaethau Ffilm	FM3	(1183/W1)
Astudio'r Cyfryngau	MS3	(1293/W1)
Busnes Cymhwysol	ABUS6	(1606/W1)
Busnes Cymhwysol	ABUS7	(1607/W1)
Busnes Cymhwysol	ABUS8	(1608/W1)
Cemeg Ymarferol	CH6b	(1096/W2)
Cyfrifiaduro	CG4	(1104/W1)
Daeareg	GL6	(1216/W1)
Datblygiad y Byd	WD4	(1394/W1)
Electroneg	ET6	(1146/W1)
Ffiseg	PH6	(1326/W1)
Gwyddoniaeth Gymhwysol	ASC5-9	(1665-9/W1)
Hanes	HY3	(1233/51-59)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	HSC9-12	(1629-32/W1)
Llenyddiaeth Saesneg	LT3	(1173/01)
Saesneg Iaith	LG3	(1153/01)
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth	LL3	(1163/01)
Teithio a Thwristiaeth	TT6	(1686/W1)
Teithio a Thwristiaeth	TT8	(1688/W1)
TGCh Cymhwysol	AICT6	(1646/W1)
TGCh Cymhwysol	AICT7	(1647/W1)
TGCh Cymhwysol	AICT8	(1648/W1)
TGCh	IT4	(1244/W1)

D.S. Cyhoeddir cyfarwyddiadau ar wahân ar gyfer Bioleg BY6 (1076/W1), Cemeg CH6a (1096/W1), Gwyddoniaeth Gymhwysol Uned ASC4 (1664/W1), a Cherddoriaeth MU5a / MU5b (1305/W1-W2) gan eu bod yn cael eu marcio'n allanol. Dylid cael cyfarwyddiadau ar wahân ar gyfer Celf a Dylunio gan CBAC.

RHAN 1 - CYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL

Yng nghyfres Mehefin 2011, bydd dwy system wahanol yn cael eu defnyddio i gyflwyno marciau gwaith cwrs ac adnabod ymgeiswyr y sampl:

System A
I bob pwnc TGAU ac eithrio Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg, mae'r drefn i'w dilyn yr un peth â blynyddoedd blaenorol. Amlinellir y drefn hon yn adran 2.

System B
I'r TGAU Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg, a'r holl bynciau TAG, bydd trefn newydd i'w dilyn. Prif elfennau'r drefn newydd hon yw:

- mae angen i athrawon pwnc/penaethiaid adran allu mewngofnodi ar y wefan ddiogel (cyfrifon eilaidd)
- llwytho'r marciau i fyny ar dudalen we, gydag enwau/rhifau'r ymgeiswyr wedi'u gosod arni'n barod
- y system yn adnabod ymgeiswyr y sampl yn awtomatig
- **ni fydd Ffurflenni C yn cael eu cyhoeddi mwyach**

Rhoddir manylion am y drefn newydd yn adran 4.

Mae'r cyfarwyddiadau yn y rhan hon yn berthnasol i bob pwnc – waeth pa system, A neu B, sy'n cael ei defnyddio i brosesu'r marciau.

1.1. CYFLWYNO FFOLDERI

Gellir rhoi cyfarwyddiadau penodol ynglŷn â chyflwyno gwaith yng nghanllawiau'r pynciau unigol. Oni nodir yn wahanol, dylid talu sylw i'r pwyntiau canlynol:

(i) Dylid cyflwyno gwaith pob ymgeisydd mewn ffolder/ffeil maint A4, gyda **theitl y fanyleb, enw'r ganolfan a'i rhif, enw'r ymgeisydd a'i rif arholiad** wedi'u hysgrifennu arni'n glir.

(ii) **Ni** ddylid defnyddio ffeil fodrwy (swmpus i'w phostio) a waledi plastig (anodd gweld y gwaith).

(iii) Lle y ffurfir y gwaith cwrs o nifer o aseiniadau dylid eu gosod yn y ffolder yn yr un drefn ag ar y daflen glawr.

(iv) Caniateir defnyddio prosesyddion geiriau wrth gynhyrchu gwaith, onid yw gofynion y fanyleb yn cyfyngu ar hynny.

1.2 SAFONI'R MARCIO O FEWN CANOLFANNAU

Dylai canolfannau ddefnyddio deunyddiau cyfeirio ac archif (megis y deunydd enghreifftiol a ddarperir gan CBAC neu waith yn y ganolfan o'r flwyddyn flaenorol, lle y bo hwnnw ar gael) er mwyn helpu gosod safon y marcio o fewn y ganolfan.

Cyn marcio, mae'n ddefnyddiol ymgymryd ag ymarferiad marcio rhagarweiniol. Bydd athrawon yn marcio'r un sampl cymharol fychan o waith er mwyn caniatáu i'r safonau marcio gael eu cymharu. Gellir cynnal yr ymarferiad ar adegau priodol yn ystod y cwrs ac mae iddo dair effaith fanteisiol: mae'n helpu i feithrin gwell cymaroldeb yn y safonau marcio; gall nodi'n gynnar yn y broses unrhyw athrawon nad yw eu marcio'n cyd-fynd â marcio eu cydweithwyr; mae'n lliniaru rhywfaint ar y llwyth marcio trwm ar ddiwedd y cwrs.

Lle y bydd mwy nag un athro mewn canolfan wedi marcio'r gwaith mewn cydran, dylid fel arfer safoni'r marcio gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol.

Naill ai, bydd yr athro / athrawes sydd â gofal am y safoni mewnol yn ail-farcio sampl o waith sydd wedi'i farcio gan bob athro,

Neu, bydd yr holl athrawon sy'n gyfrifol am farcio cydran yn cyfnewid gwaith wedi'i farcio (mewn cyfarfod dan arweiniad yr athro/athrawes sydd â gofal am y safoni mewnol fyddai orau) ac yn cymharu eu safonau marcio.

Lle y canfyddir fod safonau'n anghyson, dylai'r athrawon hynny sy'n anghyson newid eu marciau neu ail-ystyried marciau'r holl ymgeiswyr yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r athro/athrawes sydd â gofal am y safoni mewnol wirio'r marciau newydd.

Os bydd canolfannau'n cael unrhyw broblemau naill ai o ran cymhwyso'r cynlluniau marcio neu yn y broses safoni mewnol, dylid ceisio cyngor gan CBAC.

1.3 ANSAWDD Y CYFATHREBU YSGRIFENEDIG

Yn yr UG/Safon Uwch a'r TGAU newydd, ymgorfforir marcio 'Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig' yn y rhan fwyaf o bynciau yn asesiad cyffredinol y cydrannau.

Yn yr **hen bynciau TGAU**, dylid dilyn cyfarwyddiadau pwnc-benodol a ddarperir yn y fanyleb a/neu ar daflenni marciau ar gyfer asesu cyfathrebu ysgrifenedig.

Yn 2011, gweithredir hyn ar gyfer yr holl waith cwrs ac eithrio'r cydrannau canlynol:

Bioleg
Cemeg
Cymraeg: Iaith Gyntaf
Cymraeg Ail Iaith
Ffiseg
Gwyddoniaeth
Gwyddoniaeth Ychwanegol
Saesneg
Llenyddiaeth Saesneg

Mae'n hanfodol bwysig cadw at gyfarwyddiadau a llenwi taflenni marciau'n gywir fel bod marciau ymgeiswyr yn cael eu dyfarnu allan o'r cyfanswm cywir ar gyfer pob pwnc/cydran.

1.4. ANODI GWAITH

Gellir cysylltu'r egwyddorion cyffredinol canlynol ar gyfer anodi gwaith cwrs ag unrhyw rai o'r gofynion pwnc-penodol.

(a) Dylid dewis unrhyw un o'r tri dull canlynol:

- (i) sylwadau crynodol naill ai ar y gwaith, ar y diwedd fel arfer, neu ar 'daflen glawr';
- (ii) darnau allweddol o dystiolaeth yn cael eu nodi trwy'r gwaith gan anodi naill ai ar yr ymyl neu yn y testun;
- (iii) cyfuniad o (i) a (ii).

(b) Dylai'r nodi sut y dyfarnwyd marciau fod yn:

- (i) glir a diamwys;
- (ii) priodol i natur a ffurf y gwaith;
- (iii) hwyluso safoni'r marcio o fewn y ganolfan;
- (iv) galluogi'r safonwr i wirio'n rhwydd gymhwysiad y meini prawf asesu i'r marcio.

(c) Dylai anodi, lle'n briodol:

(i) nodi ble mae'r meini prawf asesu wedi'u cwrdd, e.e. trwy ysgrifennu ymadroddion allweddol o'r meini prawf (megis 'ymwybyddiaeth o werthoedd', 'yn dethol gwybodaeth', 'yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau') wrth y pwynt addas yn y gwaith;

(ii) nodi unrhyw weithredoedd cynllunio a phrosesu nad ymgymerwyd â hwy'n unigol a darparu manylion unrhyw gymorth neu awgrymiadau a roddir i'r ymgeisydd.

1.5 SAFONI AC ADBORTH

Bydd y safonwr yn ail-asesu'r gwaith sampl gan ddefnyddio'r meini prawf marcio sydd wedi'u cyhoeddi yn y fanyleb. Mae marciau'r safonwr yn cael eu cymharu â marciau'r ganolfan ar gyfer y gwaith sampl. Os yw unrhyw un o'r gwahaniaethau rhwng marciau'r safonwr a marciau'r ganolfan yn fwy na goddefiant penodedig, bydd marciau'r ganolfan fel arfer yn cael eu newid.

Os oes angen tystiolaeth bellach o farcio'r ganolfan, efallai bydd y safonwr yn gofyn am beth o'r gwaith, neu'r holl waith, sy'n weddill. Os oes anghytuno sylweddol rhwng trefn restrol y ganolfan a threfn restrol y safonwr, efallai y rhoddir marciau'r safonwr i'r holl ymgeiswyr ar gyfer y gydran honno yn y ganolfan.

Danfonir y marciau terfynol sydd wedi'u safoni at ganolfannau gyda'r canlyniadau (yn y TGAU fe'u mynegir fel marciau crai neu farciau GMU,yn y TAG fel marciau GMU).

Bydd adroddiadau Safonwyr yn rhoi adborth ar:

(i) effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan;

(ii) priodoldeb y tasgau (yn yr achosion hynny pan fydd y ganolfan wedi'u gosod yn hytrach na'r corff dyfarnu) a'r ymdriniaeth o'r amcanion asesu;

(iii) cywirdeb asesiadau'r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni am y gydran;

(iv) p'un ai bod marciau'r ganolfan wedi cael eu cymhwyso.

Gellir gwneud sylwadau ar gywirdeb asesiadau canolfan hyd yn oed os na wneir unrhyw gymhwysiad. Er enghraifft, os yw'r gwahaniaeth rhwng marciau'r safonwr a marciau'r ganolfan prin o fewn y goddefiant penodedig, bydd y safonwr fel arfer yn darparu cyngor ar safon y marcio.

1.6. **DYCHWELYD Y GWAITH I'R CANOLFANNAU**

Bydd safonwyr yn dychwelyd y gwaith yn syth i'r canolfannau cyn gynted â phosibl ar ôl safoni.

Bydd CBAC yn trin deunydd a gyflwynir i'w safoni gyda gofal ond ni all dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod. Efallai y bydd CBAC yn cadw samplau i bwrpas enghreifftiau neu ar gyfer yr archifau.

Gofynnir i ganolfannau gadw gwaith ymgeiswyr wedi'i farcio, dan amodau diogel cyn belled ag y bo hyn yn ymarferol, i ganiatáu am y posibilrwydd o ymholiad ynglŷn â chanlyniadau. Os bydd problem ynglŷn â chadw'r gwaith, oherwydd natur y gwaith, rhaid i rhyw fath o dystiolaeth fod ar gael (e.e. ffotograffig, tâp sain neu dâp fideo). Gofynnir i ganolfannau hefyd gadw cofnod o rifau arholiad ac enwau'r ymgeiswyr hynny y cynhwysir eu gwaith yn y sampl a anfonir at neu a welir gan safonwyr. Gall fod angen y wybodaeth hon os gwneir unrhyw ymholiad ynglŷn â chanlyniadau yn ddiweddarach.

D.S. Dylid cynghori ymgeiswyr i beidio â chynnwys unrhyw eitemau gwerthfawr neu bersonol e.e. ffotograffau, tystysgrifau, ac ati.

1.7. **TROSGLWYDDO MARCIAU YN YR HEN FANYLEBAU TGAU (pynciau llinol)**

Gellir trosglwyddo marciau o flwyddyn flaenorol ar gyfer y rhan fwyaf o'r elfennau canolfan-seiliedig yr ymdrinnir â hwy yn y llyfryn hwn, gyda rhai amodau. Darperir manylion pellach yng nghylchlythyr rhif 68 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

Lle y caniateir trosglwyddo marciau, gellir trosglwyddo marciau wedi'u safoni (nid marciau gwreiddiol yr athro); bydd y cyfleuster hwn ar gael fel arfer dros oes y fanyleb. Ni ddylid ail-gyflwyno gwaith heb ei newid i'w asesu. Gellir serch hynny ychwanegu ato neu ei ddiwygio i'w ail gyflwyno. O wneud hyn fe'i ystyrir yn waith newydd.

Gofynnir i ganolfannau nodi'r cyfarwyddiadau hyn yn ofalus a chyfeirio at Gylchlythyr Rhif 68 a'r hyn oedd yn amgaeëdig cyn llenwi ffurflen CF/1. Mae ffurflen CF/1 yn gofyn am fanylion yr ymgeiswyr hynny sydd am drosglwyddo marciau gwaith cwrs o Gyfres Mehefin neu Dachwedd flaenorol.

Ni fydd yn bosibl i CBAC chwilio am farciau ymgeiswyr os na fydd y manylion hyn wedi'u rhoi. Yn yr achosion hyn, dyfernir gradd ar sail perfformiad yr ymgeisydd yn y cydrannau lle mae marciau ar gael, hynny yw, heb yr elfen ganolfan-seiliedig o gwbl.

1.8. **AIL-SEFYLL UNEDAU TGAU**

Rheolau'r Manylebau TGAU newydd – gofynion terfynol a chyfnewid: Nodiadau i Athrawon a Swyddogion Arholiadau (llyfryn y CGC – www.jcq.org.uk).

Yn y llyfryn hwn ceir canllaw cynhwysfawr i gymhwyso'r rheolau, y gofynion terfynol ac yn benodol unrhyw faterion sy'n codi o'r ddarpariaeth ail-sefyll, ac opsiynau cyfnewid.

1.9. **DILYSU**

Ym mharagraff 5.14 Cod Ymarfer Ebrill 2010 nodir:

"Mae'n rhaid i'r sefydliad dyfarnu fynnu bod canolfannau yn derbyn datganiad wedi'i arwyddo gan bob ymgeisydd er mwyn dilysu'r gwaith a gynhyrchir ganddynt i'w asesu'n fewnol fel eu gwaith eu hunain. Rhaid cofnodi marc sero neu absennol os na all ymgeisydd gadarnhau dilysrwydd y gwaith a gynhyrchwyd i'w asesu'n fewnol."

Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am sicrhau mai eu gwaith hwy yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Darperir cyfarwyddiadau ac arweiniad yn nogfennau'r CGC *Hysbysiad i Ymgeiswyr – Gwybodaeth am Asesiadau Gwaith Cwrs 2010-2011* a'r *Hysbysiad i Ymgeiswyr – Asesiadau dan Oruchwyliaeth/Reolaeth 2010-2011,* a ddosbarthwyd ym mis Medi a'u rhoi ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Ar gyfer pob pwnc CBAC gyda chydran o asesiad mewnol ysgrifenedig, cynhwysir datganiad dilysu fel rhan o'r daflen farciau/clawr ar gyfer ffolderi ymgeiswyr unigol. Mae'r rhain ar gael i'w llwytho i lawr o dudalen y pwnc perthnasol ar wefan CBAC **www.cbac.co.uk** Ar dudalen gartref CBAC, o dan y penawd 'Canfod Cymwysterau ac Adnoddau' cliciwch ar y pwnc perthnasol a dewiswch lefel yr arholiad, a chliciwch ar 'chwilio'. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyswllt cyflym â'r taflenni marciau ar dudalen y pwnc. Agorwch y ddogfen a'i chadw/hargraffu yn ôl yr angen.

Mae gofyn i **bob** ymgeisydd (nid y rhai a gynhwysir yn y sampl safoni yn unig) lofnodi'r datganiad dilysu mai eu gwaith eu hunain (gyda'r eithriadau a nodir) yw'r holl waith a asesir yn fewnol, wedi'i wrth-lofnodi gan athrawon bod hyn yn wir cyn belled ag y bônt yn ymwybodol.

1.10 **CAMYMDDWYN**

Lle y bydd unrhyw gamymddwyn yn cael ei ddarganfod cyn i'r datganiad dilysu gael ei lofnodi, nid oes angen cyflwyno adroddiad ar hyn i CBAC, ond yn hytrach dylid ymdrin â'r mater yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Mae gofyn i'r canolfannau fod â pholisi ar waith i ymdrin ag apeliadau gan ymgeiswyr yn erbyn penderfyniadau asesu mewnol; mae canllawiau ar weithdrefnau a argymhellir yn yr achosion hyn ar gael ar wefan y CGC *(Trefniadau gwneud Apeliadau Mewnol am Benderfyniadau Asesu Mewnol ac Ymholiadau am Ganlyniadau).*

Mewn achosion lle y bydd canolfan yn cadarnhau bod ymgeiswyr wedi camymddwyn, ar ôl llofnodi'r datganiad dilysu, rhaid dilyn y gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymdrin â chamymddwyn mewn gwaith a asesir yn fewnol, a chyflwyno adroddiad llawn i CBAC. Cynhwysir y gweithdrefnau hyn (a'r cosbau am y troseddau) yn nogfen y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau 2010 - 2011,* sydd ar gael ar wefan y CGC.

Awgrymir y posibilrwydd bod llên-ladrad wedi digwydd gan sawl ffactor, a dylai athrawon fod yn ymwybodol o'r rhain. Mae rhagor o arweiniad ar ganfod llên-ladrad i'w gael yn nogfen y CGC *Llên-ladrad mewn Arholiadau,* sydd ar gael ar wefan y CGC.

1.11 GWEITHREDU ANFODDHAOL GAN GANOLFANNAU

Darperir canllawiau pellach i Bennaeth y Ganolfan pan fydd athrawon neu ganolfannau unigol yn methu â chwrdd â gofynion CBAC ar gyfer gwaith a asesir yn fewnol. Lle nodir bod problemau arwyddocaol, efallai bydd angen i dasgau/cynlluniau marcio dilynol gael eu cymeradwyo gan CBAC ac i drefniadau'r ganolfan ar gyfer marcio a chymedroli gael eu monitro.

Defnyddir y canllawiau canlynol fel dull o benderfynu a oes unrhyw faterion sydd angen eu trafod â chanolfannau.

(a) A osodir tasgau o fewn gofynion y fanyleb?

(b) A yw'r cynlluniau marcio/meini prawf asesu a ddyfeisir gan ganolfannau yn glir, di-amwys ac yn addas i'w gweithredu'n aml? A gawsant eu gweithredu'n briodol?

(c) A ddilynwyd cyfarwyddiadau gweinyddol a threfniadaethol CBAC?

(ch) A gafodd y gwaith a asesir yn fewnol ei anodi'n gywir?

(d) A ddilyswyd y gwaith a asesir yn fewnol yn gywir, yn arbennig yn yr achosion hynny lle y gallai rhai gweithgareddau fod wedi digwydd tu allan i'r ysgol?

(dd) Os rhoddir manylion ynglŷn ag unrhyw gymorth a roddwyd i ymgeiswyr penodol sydd tu hwnt i'r hyn a roddwyd i'r grŵp yn gyffredinol; a yw natur cymorth o'r fath o fewn y paramedrau a osodir gan y fanyleb?

(e) A yw'r safoni o fewn y ganolfan yn effeithiol ac o fewn gofynion CBAC?

RHAN 2 – CYFLWYNO MARCIAU AC ADNABOD SAMPLAU (System A)

Mae'r drefn hon yn berthnasol i bob pwnc TGAU, ***ac eithrio Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg.***

2.1 DYDDIADAU

Cyflwyno samplau gwaith i'r safonwr ar gyfer yr hen fanylebau: gweler y *Nodiadau ar Bynciau Unigol* (adran 5).

Cyflwyno samplau gwaith i'r safonwr ar gyfer asesu dan oruchwyliaeth/reolaeth y manylebau newydd: **5 Mai** – pob pwnc heblaw am Daearyddiaeth, Dyniaethau a Drama, dylid cyflwyno'r pynciau hyn erbyn **25 Mawrth**.

Cyflwyno Ffurflenni C: **15 Mai**

Er bod hyn yn hyblyg o ran CBAC, atgoffir canolfannau fod rhaid cael digon o amser rhwng y dyddiad a osodir yn fewnol i'r ymgeiswyr ar gyfer cwblhau'r gwaith a'r dyddiad cyflwyno swyddogol ar gyfer safoni er mwyn hwyluso'r broses o ddilysu, marcio'n gywir a safoni mewnol.

2.2 TAFLENNI MARCIAU

Ceir tri math o daflen farciau ar gyfer asesu a safoni gwaith a asesir yn fewnol:

(a) ***Taflenni Clawr*** – Taflen farciau ymgeisydd unigol (gan gynnwys sylwadau ategol) i gydfynd â ffolder/project pob ymgeisydd a gyflwynir i'w safoni. Mae hyn fel arfer yn cynnwys datganiad dilysu'r ymgeisydd.

(b) ***Taflenni Marciau'r Sampl Safoni*** – lle y rhestrir y sampl a ddewisir i'w safoni. Rhoddir cyfarwyddiadau trosodd ar sut i ddewis y sampl.

(c) ***Ffurflenni C*** – Taflenni marciau cyfrifiadurol lle y nodir cyfanswm marciau pob ymgeisydd. Anfonir y ffurflenni hyn i ganolfannau ar ddiwedd mis Ebrill/dechrau Mai. Gweler Rhan 3 am gyfarwyddiadau ar sut i lenwi Ffurflenni C.

D.S. Rhaid llwytho taflenni marciau a thaflenni clawr i lawr o'r rhan sy'n berthnasol i'r pwnc ar wefan CBAC – www.cbac.co.uk .

2.3 ADNABOD YMGEISWYR Y SAMPL

Ar gyfer pob pwnc seilir y sampl ar drefn restrol gyffredinol y cofrestriad cyfan.

Defnyddir y fformiwla ganlynol, gan ddibynnu ar yr ystyriaethau ychwanegol a restrir isod. Rhaid cofnodi marciau'r sampl yn eu trefn restrol (gan ddechrau â'r uchaf) ar Daflen Farciau'r Sampl Safoni.

Nifer yr Ymgeiswyr	*Gwaith i'w gyflwyno (Mae'r rhifau'n cyfeirio at drefn restrol)*
1-10	Y gwaith i gyd
11-19	1af a phob yn ail ymgeisydd wedyn (1, 3, 5, 7 a.y.b.) **ynghyd â'r** ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl gyfan o 10.
20-45	1af a phob 5ed ymgeisydd wedyn (1, 6, 11, 16 a.y.b.) **ynghyd â'r** ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl gyfan o 10.
46-99	1af a phob 11eg ymgeisydd wedyn (1, 12, 23, 34 a.y.b.) **ynghyd â'r** ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl gyfan o 10.
100-199	1af a phob 14eg ymgeisydd wedyn (1, 15, 29, 43 a.y.b.) **ynghyd â'r** ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl gyfan o 15.
200-299	1af a phob 15fed ymgeisydd wedyn (1, 16, 31, 46 a.y.b.) **ynghyd â'r** ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl gyfan o 25.
Dros 300	1af a phob 20fed ymgeisydd wedyn (1, 21, 41, 61 a.y.b.) **ynghyd â'r** ffolder â'r sgôr isaf a ffolderi ychwanegol yn ôl yr angen (yn adlewyrchu gwasgariad y marciau) i ffurfio sampl gyfan o 25.

Dylid nodi cyfanswm yr ymgeiswyr a gofrestrir (lle'n briodol) yn glir ar Daflen Farciau'r Sampl Safoni.

D.S. Yn ogystal, dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddewis y sampl:

(i) Dylai pob grŵp addysgu gael ei gynrychioli.

(ii) Pan fydd mwy nag un ymgeisydd ar farc arbennig bydd y rhain yn cyfrif tuag at y cyfanswm wrth gyfrifo'r drefn restrol, ond gwaith un ymgeisydd ar farc arbennig a gyflwynir fel arfer.

(iii) Dylai'r gwaith a gyflwynir, lle'n bosib, gwrdd â gofynion llawn y fanyleb; h.y. ni ddylid cynnwys gwaith anghyflawn ond yn hytrach waith yr ymgeisydd nesaf (naill ai'n uwch neu'n is) sydd â'i waith cwrs yn gyflawn.

(iv) Lle'n briodol, dylid cyflwyno gwaith yn Saesneg a Chymraeg o ganolfannau dwyieithog.

Gall CBAC ofyn am ragor o samplau o waith i'w hanfon at y safonwyr os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol. Cedwir yr hawl gan CBAC hefyd i alw'r holl waith yn ôl i'w ail-farcio mewn achosion lle y gwelwyd yn y safoni bod problemau dybryd yn y marcio dechreuol.

Unwaith y bydd y sampl wedi'i dethol, dylid nodi marciau pob ymgeisydd yn y sampl ar daflen farciau'r sampl safoni.

2.4 **DANFON GWAITH**

Bydd enw a chyfeiriad y safonwr y mae'r gwaith i'w anfon ato'n ymddangos ar y rhestrau a ddarperir gan CBAC. Er mwyn cynorthwyo canolfannau wrth iddynt ddanfon gwaith, darperir manylion y safonwyr hefyd ar labeli hunanadlynol Rhaid cynnwys Taflen(ni) Farciau'r Sampl Safoni a Thaflenni Clawr lle bo angen gyda'r gwaith hwn.

Rhaid cadw manylion y rhestr gyflawn o farciau'r **holl** ymgeiswyr a'u trosglwyddo i Ffurflenni C cyfrifiadurol cyn eu cyflwyno i swyddfa CBAC erbyn 15 Mai. **Argymhellir hefyd y dylid cadw llungopi o Daflen Farciau'r Sampl Safoni wedi'i llenwi.**

RHAN 3 - CYFARWYDDIADAU AR LENWI FFURFLENNI C (System A yn unig)

3.1 **RHAID YSGRIFENNU Â PHENSIL H.B. WRTH LENWI FFURFLENNI C. BYDD Y CYFRIFIADUR YN GWRTHOD UNRHYW YSGRIFBIN ARALL (MEGIS RHAI INC NEU FFELT AC ATI).**

3.2 Dylid cofnodi'r marc cyfanswm i bob elfen o dan y pennawd 'Marc'. Nodir y marc uchaf ar gael i bob elfen ar ben y ffurflen. **GWRTHODIR UNRHYW FFURFLEN SYDD ARNI FARC YN UWCH NA'R MARC UCHAF POSIBL.**

3.3 Gellir ond defnyddio'r Ffurflenni C i'r ymgeiswyr hynny y mae eu henwau wedi'u nodi ar y ffurflenni. **NI ELLIR AR UNRHYW GYFRIF YCHWANEGU ENWAU YMGEISWYR ERAILL AM NA FYDD Y CYFRIFIADUR YN DERBYN FFURFLEN DDIWYGIEDIG.**

3.4 Ceir cyfarwyddyd ynglŷn â'r dull cywir i'w ddefnyddio i gofrestru ymgeiswyr yn hwyr ar y dudalen nesaf (Gweler 3.6).

Ni ellir newid enwau na rhifau ymgeiswyr ar y ffurflenni hyn. Os bydd enw ymgeisydd yn anghywir, dylid ei newid yn y modd arferol.

3.5 **TROSI'R MARCIAU I FFORMAT COD BAR**

Ar ôl ysgrifennu'r marciau i gyd yn y golofn 'Marc', dylid eu trosi i god bar trwy dynnu llinell bar yn ofalus trwy bob sgwâr priodol yn y 'FFORMAT COD BAR'.

Rhennir y fformat cod bar i bob marc yn dair rhan. Mae'r llinell uchaf yn cynnwys sgwariau sy'n cynrychioli unedau o ddeg. Mae'r llinell isaf yn cynnwys sgwariau sy'n cynrychioli rhifolion un-digid ac ar ochr dde'r ffurflen mae'r sgwariau'n cynrychioli cannoedd.

I ddynodi marc o 86 dylid tynnu llinell bar o fewn y cromfachau yn y llinell uchaf ar draws y sgwâr â'r rhif 80. Wedyn tynnir llinell bar ar y sgwâr â'r rhif 6 yn y llinell isaf. **Ni ddylid tynnu'r llinell bar drwy'r cromfachau.**

I nodi ymgeisydd sy'n dymuno trosglwyddo marc gwaith cwrs/llafar TGAU dylid rhoi'r llythyren C/F yn y golofn "marc". (Dylai canolfannau hefyd lenwi manylion yr ymgeisydd ar ffurflen CF1). I drosi'r wybodaeth hon i fformat cod bar dylid tynnu llinell bar yn y rhan dywyll o dan y bocs "Absennol".

Mae'r ffurflen C TGAU enghreifftiol yn dangos enghreifftiau eraill:

30	-	llinellau bar trwy 30 a 0
116	-	llinellau bar trwy 100, 10 a 6
120	-	llinellau bar trwy 100, 20 a 0
0	-	llinellau bar trwy 0 ar y llinell degau a 0 ar y llinell unedau
7	-	llinellau bar trwy 0 ar y llinell degau a thrwy 7 ar y llinell unedau
ABS	-	llinell bar trwy'r bocs A.
C/F	-	llinell bar trwy'r darn wedi'i liwio o dan y bocs "absennol".

D.S. Rhaid tynnu llinell bar yn y llinell degau a'r llinell unedau hyd yn oed pan ddynodir sero, 0.

Dylid marcio ymgeiswyr yn ABSENNOL os nad ydynt wedi cyflwyno gwaith cwrs (Gweler Ymgeisydd 00023 ar y Ffurflen C enghreifftiol).

CANDIDATE No. RHIF YMGEISYDD	CANDIDATES NAME / ENW'R YMGEISYDD	MARK MARC	ABSENT ABSENNOL	MARK (IN BAR-CODE FORMAT) MARC (AR FFURF CÔD BAR)
00001	DALE: CARL DAVID	30		
00007	JONES: HELEN CLAIRE	86		
00019	PETERS: EIRIAN	116		
00023	GRIFFITHS: RICHARD	ABS		
00086	DYSON: CHRISTOPHER JAMES	0		
00104	ALMOND: CLIVE THOMAS ROBERT	7		
00137	KERSHAW: TIMOTHY IAN	120		
00145	ROBINSON: PAULINE	C/F		

Gellir dileu llinellau bar anghywir â rwber da.

RHAID GOFALU WRTH DDYNODI MARC O 100 NEU DROSODD. YN YR ACHOS HWN, DYLID TYNNU LLINELL BAR TRWY SGWÂR '100'.

3.6 **YMGEISWYR NAD YW EU HENWAU YN YMDDANGOS AR Y FFURFLENNI (COFRESTRU'N HWYR)**

Pan fydd hyn yn digwydd, dylid nodi enw, rhif a marciau'r ymgeisydd ar y ffurflen CW/1 a ddarperir - 'Marciau Ymgeiswyr sy'n Cofrestru'n Hwyr'. Gellir nodi manylion am fwy nag un ymgeisydd ar y ffurflen ond rhaid defnyddio ffurflenni ar wahân i bob pwnc.

3.7 **YMGEISWYR SYDD WEDI ASTUDIO AM ELFENNAU GWAITH CWRS MEWN CANOLFAN ARALL**

Yn achos yr ymgeiswyr hyn, rhaid i ganolfannau gael y marciau gwaith cwrs o'r ganolfan arall cyn dychwelyd y Ffurflen C.

3.8 **GOFALU AM FFURFLENNI C**

Rhaid cadw'r Ffurflenni C yn yr un cyflwr ag y'u derbyniwyd. Ni ddylid eu plygu mewn unrhyw ffordd gan **na fydd y cyfrifiadur yn derbyn ffurflenni ag unrhyw fath o nam arnynt**.

3.9 **DYCHWELYD FFURFLENNI 'C'**

Dylid dychwelyd pob Ffurflen C yn yr amlenni trwchus swyddogol a ddarperir. Rhaid nodi rhif y ganolfan ar glawr yr amlen.

Cewch ddychwelyd Ffurflenni C sawl pwnc yn yr un amlen.

RHAID DYCHWELYD POB FFURFLEN C ERBYN 15 MAI.

Gall canolfannau ddychwelyd marciau gwaith cwrs trwy EDI (cyfnewid data electronig) fel dewis amgen i ddefnyddio Ffurflenni C. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gofrestriadau EDI trwy ffonio'r llinell gymorth EDI ar 029 2026 5168.

RHAN 4: CYFLWYNO MARCIAU AC ADNABOD SAMPLAU (System B)

Mae'r drefn hon yn berthnasol i'r **TGAU Saesneg a Llenyddiaeth Saesneg** a **phob pwnc TAG**. Yn ogystal â'r nodiadau isod, dylech gyfeirio at y cyfarwyddyd a ddosbarthwyd gyda chylchlythyr 78 ym mis Ionawr 2011. Prif elfennau'r system newydd hon yw:

- mae angen i athrawon pwnc/penaethiaid adran allu mewngofnodi ar y wefan ddiogel (cyfrifon eilaidd)
- llwytho'r marciau i fyny i dudalen we, gydag enwau/rhifau'r ymgeiswyr wedi'u gosod arni'n barod
- y system yn adnabod ymgeiswyr y sampl yn awtomatig
- **ni fydd Ffurflenni C yn cael eu dosbarthu mwyach**

DS: Bydd ond angen taflenni marciau'r sampl safoni a ddisgrifir yn adran 2 ar gyfer TAG Hanes.

4.1 DYRANNU PYNCIAU I DDEILIAID CYFRIFON EILAIDD Y WEFAN DDIOGEL

Gyda'r drefn newydd o fwydo'r marciau gwaith cwrs, gall deiliaid y prif gyfrif (y swyddog arholiadau fel arfer) erbyn hyn ddyrannu pynciau penodol i'r deiliaid cyfrifon eilaidd (e.e. penaethiaid adran) fydd yn bwydo'r marciau gwaith cwrs ac yn prosesu'r samplau. Er mwyn gwneud hyn, dylai deiliaid y prif gyfrif fewngofnodi ar y wefan ddiogel, clicio ar y botwm "Gweinyddu'r Cyfrif" a newid y gosodiadau gan ddefnyddio'r cwymplenni a ddangosir.

4.2 SGRINIAU MEWNBYNNU

Bydd y sgriniau mewnbynnu marciau ar gael i'r deiliaid cyfrifon penodol o **ddydd Iau, 10 Mawrth** (TGAU Saesneg/Llenyddiaeth Saesneg) a **dydd Mercher, 6 Ebrill** (TAG) unwaith y bydd CBAC wedi derbyn a phrosesu'r canlyniadau.

4.3 RHOI MARCIAU GWAITH CWRS I MEWN

Unwaith y bydd y cofrestriadau wedi'u cyflwyno i CBAC a'u prosesu, bydd angen i athrawon pwnc fewngofnodi ar **wefan ddiogel CBAC** a chlicio ar y botwm "rhoi marciau gwaith cwrs i mewn" newydd. Bydd tudalen we ar gael i bob uned/cydran o waith cwrs y mae'r ganolfan wedi cofrestru amdani gydag enwau a rhifau'r ymgeiswyr wedi'i gosod arni'n barod. Bydd angen i'r athrawon pwnc roi marciau **pob** ymgeisydd i mewn yn y lleoedd gwag a ddarperir.

Pan gyflwynir marciau gwaith cwrs ar EDI, bydd y dudalen we'n cynnwys y marciau a gyflwynwyd.

Yn y **TGAU Saesneg/Llenyddiaeth Saesneg,** bydd angen i athrawon hefyd fewnbynnu manylion (e.e. llythrennau blaen) grŵp addysgu pob ymgeisydd**.**

4.4 ADNABOD YMGEISWYR Y SAMPL

Bydd y system yn adnabod yn awtomatig yr ymgeiswyr hynny sydd i'w cynnwys yn y sampl y mae eu gwaith i'w anfon at y safonwr. Bydd y sampl yn cael ei dewis gan ddilyn y fformiwla a gyhoeddwyd (gweler 2.3).

DS: Yn achos Drama DA1 ac Addysg Gorfforol PE3 bydd y system ar-lein ond yn cael ei defnyddio i lwytho marciau i fyny, **ni** fydd yn adnabod y sampl. I'r DA1, rhaid i'r safonwyr edrych ar waith yr holl ymgeiswyr ar DVD. Nid oes angen dewis ymgeiswyr sampl ar gyfer marciau gwaith cwrs siarad a gwrando TGAU Saesneg.

4.5 **NEWIDIADAU I'R SAMPL A DDEWISIR**

Ni fydd y system yn caniatáu i athrawon pwnc "ddileu" ymgeiswyr o'r sampl fydd wedi'i dewis. Fodd bynnag, bydd y system yn caniatáu i ganolfannau ychwanegu ymgeiswyr "ychwanegol".

Os yw'r sampl yn cynnwys ymgeisydd sydd â'i waith yn anghyflawn yna dylai athrawon pwnc nodi'r ymgeisydd nesaf (naill ai'n uwch neu'n is) sydd â'i waith yn gyflawn ar y system. **Ni ddylid anfon y gwaith anghyflawn at y safonwr.**

Rhaid anfon nodyn eglurhaol gyda'r ffolderi mewn achosion o'r fath os yw'r sampl a anfonir gan y ganolfan yn wahanol i'r sampl a ddewisir gan y system.

4.6 **TAFLENNI MARCIAU**

Fel arfer, bydd y taflenni marciau ymgeisydd unigol (taflenni clawr), y dylid eu hanfon gyda phob project/ffolder a gyflwynir i'w safoni, yn cynnwys datganiad dilysu. Rhaid llwytho taflenni clawr i lawr o'r dudalen bwnc berthnasol ar wefan CBAC - www.cbac.co.uk .

4.7 **DANFON GWAITH**

Bydd enw a chyfeiriad y safonwr yn cael ei ddangos ar y sgrin. Dylid wedyn anfon gwaith cwrs a thaflenni marciau ymgeiswyr y sampl at y safonwr.

DS: Yn achos TAG Hanes, rhaid llenwi'r taflenni marciau HY3A a HY3B a'u hanfon at y safonwr ar yr un pryd â gwaith y sampl (gweler cylchlythyr 79 a ddosbarthwyd ym mis Ionawr 2011).

4.8 **YMGEISWYR COFRESTRIAD HWYR**

Gall athrawon fewnbynnu marciau ymgeiswyr cofrestriad hwyr ar y dudalen we, **ar yr amod bod cofrestriad yr ymgeisydd eisoes wedi'i gyflwyno i CBAC a'i brosesu.**

Os yw athrawon am fewnbynnu marc unrhyw ymgeisydd nad yw ei enw ar y rhestr ar y dudalen we, dylid gofyn i'r swyddog arholiadau gyflwyno'r cofrestriad angenrheidiol er mwyn gallu ychwanegu'r marc wedyn.

4.9 **NEWID MARCIAU AR ÔL EU CYFLWYNO**

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno trwy'r wefan ni ellir eu newid. Os bydd athrawon yn sylwi bod marc anghywir wedi'i gyflwyno bydd angen iddynt hysbysu CBAC (trwy lythyr neu ffacs) er mwyn i'r newid angenrheidiol gael ei wneud.

4.10 **DYDDIADAU**

TGAU Saesneg/Llenyddiaeth Saesneg – Cyflwyno samplau o waith i'r safonwr **dydd Gwener, 25 Mawrth**

Gwaith cwrs siarad a gwrando TGAU Saesneg – Cyflwyno marciau i CBAC **dydd Sul, 15 Mai.**

TAG – Cyflwyno samplau o waith i'r safonwr **dydd Sul, 15 Mai** – heblaw am Hanes HY3 y dylid ei gyflwyno erbyn **dydd Gwener, 6 Mai.**

DS: Yn achos y TAG Hanes, gan y gofynnwyd i'r canolfannau anfon eu gwaith at y safonwr erbyn dydd Gwener, 6 Mai, gofynnir i athrawon lwytho eu marciau i fyny erbyn dydd Iau, 5 Mai fan bellaf (gweler cylchlythyr 79 a ddosbarthwyd ym mis Ionawr 2011).

4.11 **TREFNIADAU CONSORTIWM**
(**ond** eu hangen os bydd dwy neu fwy o'r canolfannau sy'n aelodau'n cofrestru ymgeiswyr am waith a asesir gan y ganolfan)

Dylai canolfannau ddilyn y cyfarwyddiadau sy'n cael eu hamlinellu yn adran 6 er mwyn sicrhau bod holl ymgeiswyr y consortiwm yn cael eu trin fel un grŵp i bwrpasau asesu mewnol.

Dylai'r ganolfan addysgu anfon y marciau gwaith cwrs i ganolfan gofrestru pob ymgeisydd er mwyn gallu mewnbynnu'r rhain i'r system.

Ni fydd y system ar-lein yn gallu ymdrin â holl ymgeiswyr y consortiwm fel un grŵp. Dylai canolfannau consortiwm felly glicio ar y botwm "consortiwm" (er mwyn atal cymhwyso'r fformiwla samplu).

Dylai cydlynwyr consortiwm gysylltu â CBAC er mwyn trefnu sampl briodol ar draws yr holl ganolfannau sy'n rhan o'r consortiwm a sicrhau bod ffurflen JCQ/CCA wedi'i chyflwyno i CBAC.

ADRAN 5: NODIADAU AR BYNCIAU UNIGOL

TGAU

* y manylebau hyn a gynigir am y tro olaf ym mis Mehefin 2011
** y manylebau hyn a gynigir am y tro olaf ym mis Tachwedd 2011

ASTUDIAETHAU BUSNES

Dylid cyflwyno'r canlynol ynghyd â'r sampl gwaith cwrs i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Iau, 5 Mai**:

(i) copi o'r tasgau aseiniad;
(ii) taflen farciau'r sampl safoni, ffurflen BS1;
(iii) y daflen glawr BS2 sy'n mynd gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iv) taflen BS3 – arweiniad i ymgeiswyr unigol.

ASTUDIAETHAU FFILM

Dylid cyflwyno'r canlynol ynghyd â'r sampl gwaith cwrs i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Iau, 5 Mai:**

(i) rhestr o'r ymgeiswyr yn y sampl safoni a ddewiswyd yn ôl y fformiwla (gweler 2.3) (F/L SAMPL);
(ii) Taflen glawr yr ymgeisydd (FL/1 sy'n cydfynd â gwaith pob ymgeisydd;
(iii) Taflen glawr archwiliad ffilm FL/2;
(iv) Yn ogystal, gellir cyflwyno'r dadansoddiad gwerthuso ar gyfer Cyflwyno Syniad a Chynhyrchiad a'r Cynhyrchiad gan ddefnyddio'r taflenni FL/3a a FL/3b opsiynol.

BIOLEG

At ddibenion safoni, ymdrinnir â TGAU Bioleg ar wahân i TGAU Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol.

Dylid anfon samplau safoni ar wahân i ymgeiswyr a gofrestrir am yr opsiwn 244/01(3 tasg ymarferol) ac i'r rhai a gofrestrir am yr opsiwn 244/02 (gydag Adroddiad Estynedig).

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl(au) o waith cwrs, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 6 Mai:**

(i) taflen farciau sampl safoni S3a (ar gyfer opsiwn 244/01) a S3b (ar gyfer opsiwn 244/02);
(ii) cerdyn cofnod ymgeisydd gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iii) trefn restrol o farciau ymgeiswyr, gyda'r rhai sydd yn y sampl safoni wedi'u hamlygu.

CELFYDDYDAU PERFFORMIO (UNEDAU 1 a 3)

Dylid dilyn y wybodaeth gyffredinol (gweler 2.3) wrth ddewis y sampl a seilio hynny ar farc **cyfanswm** y tair tasg asesu dan reolaeth (120). Dylid anfon y taflenni marciau unigol, y ffurflen trefn restrol, gwaith ysgrifenedig y tair tasg a DVD neu CD yn dangos perfformio datblygiad y sgil tasg 1 at y safonwr erbyn **dydd Iau, 5 Mai.**

CEMEG

At ddibenion safoni, ymdrinnir â TGAU Cemeg ar wahân i TGAU Bioleg, Ffiseg, Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol.

Dylid anfon samplau safoni ar wahân i ymgeiswyr a gofrestrir am yr opsiwn 246/01(3 tasg ymarferol) ac i'r rhai a gofrestrir am yr opsiwn 246/02 (gydag Adroddiad Estynedig).

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl(au) o waith cwrs, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 6 Mai:**

(i) taflen farciau sampl safoni S4a (i opsiwn 246/01) a S4b (i opsiwn 246/02);
(ii) cerdyn cofnod ymgeisydd gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iii) trefn restrol o farciau ymgeiswyr, gyda'r rhai sydd yn y sampl safoni wedi'u hamlygu.

CERDDORIAETH

Dylid dilyn y wybodaeth gyffredinol (gweler 2.3) wrth ddewis y sampl. Dylai'r recordiad a'r sgorau/taflenni cyfarwyddyd cyfansoddiadau'r ymgeiswyr gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Iau, 5 Mai.** Hefyd rhaid anfon y ffurflen trefn restrol, taflenni marciau'r athrawon a log cyfansoddi'r ymgeisydd.

****CYMRAEG: IAITH GYNTAF A *LLENYDDIAETH GYMRAEG (hen)**

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl o waith sydd i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 11 Mawrth**:

(i) taflen farciau'r sampl safoni (Cymraeg: Iaith Gyntaf - CY/1S, CY/1U; Llenyddiaeth Gymraeg - LLEN/1S, LLEN/1U).
D.S. dylid **ond** rhestru'r ymgeiswyr hynny yr anfonir eu gwaith;

(ii) taflen glawr gyda gwaith pob ymgeisydd (Cymraeg: Iaith Gyntaf - CY/2S, CY/2U; Llenyddiaeth Gymraeg - LLEN/2S, LLEN/2U).

***CYMRAEG AIL IAITH (CWRS LLAWN A CHWRS BYR) (hen)**

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl o waith, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 11 Mawrth**:

(i) taflen farciau'r sampl safoni: Ysgrifennu ac Ymateb Ysgrifenedig i Ddarllen (Cwrs Llawn) – CALL/YS, CALL/YU; Llafar ac Ymateb Llafar i Ddarllen (Cwrs Llawn) – CALL/LLS, CALL/LLU; Ysgrifennu ac Ymateb Ysgrifenedig i Ddarllen (Cwrs Byr) – CAB/YS, CAB/YU; Llafar ac Ymateb Llafar i Ddarllen (Cwrs Byr) – CAB/LLS, CAB/LLU
D.S. dylid **ond** rhestru'r ymgeiswyr hynny yr anfonir eu gwaith;

(ii) taflen glawr gyda gwaith pob ymgeisydd: Ysgrifennu ac Ymateb Ysgrifenedig i Ddarllen (Cwrs Llawn) – CALL/YS2, CALL/YU2; Llafar ac Ymateb Llafar i Ddarllen (Cwrs Llawn) – CALL/LLS2, CALL/LLU2; Ysgrifennu ac Ymateb Ysgrifenedig i Ddarllen (Cwrs Byr) – CAB/YS2, CAB/YU2; Llafar ac Ymateb Llafar i Ddarllen (Cwrs Byr) – CAB/LLS2, CAB/LLU2.

DAEARYDDIAETH MANYLEB A

Dylid cyflwyno'r canlynol gyda sampl yr asesiad mewnol, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 25 Mawrth:**

(i) Taflen y sampl safoni
(ii) Taflenni clawr i bob ymgeisydd yn dangos yn glir ei fod wedi'i ddilysu
(iii) Un copi o'r taflenni adnoddau cyfarwyddyd cyffredinol a gyflenwyd i bob ymgeisydd ar ddechrau'r cam adnoddau i bob un o'r ddwy dasg.

DAEARYDDIAETH MANYLEB B

Dylid cyflwyno'r canlynol gyda sampl yr asesiad mewnol, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 25 Mawrth:**

(i) Taflen y sampl safoni
(ii) Taflenni clawr i bob ymgeisydd yn dangos yn glir ei fod wedi'i ddilysu
(iii) Un copi o'r taflenni adnoddau cyfarwyddyd cyffredinol a gyflenwyd i bob ymgeisydd ar ddechrau'r cam adnoddau i bob un o'r ddwy dasg.

DRAMA (UNED 1)

Dylid rhestru pob ymgeisydd ar y daflen farciau gyfansawdd.

Dylid cyflwyno DVD yn dangos gwaith ymarferol **pob** ymgeisydd ynghyd â'r taflenni marciau unigol. Dylid anfon adroddiadau **sampl** o ymgeiswyr at y safonwr. Dylid dewis y sampl yn ôl yr amlinelliad yn y cyfarwyddyd cyffredinol (gweler 2.3). Dylid rhoi seren ar y ffurflen gyfansawdd i ddynodi'r ymgeiswyr a ddewiswyd. Dylid anfon y deunyddiau hyn at y safonwr erbyn **dydd Gwener, 25 Mawrth.**

DYNIAETHAU

Dylid cyflwyno'r canlynol gyda'r sampl gwaith cwrs i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 25 Mawrth:**

(i) Taflen farciau'r sampl safoni;
(ii) Taflen glawr gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iii) Tasgau aseiniad a chynllun marcio.

ECONOMEG Y CARTREF: DATBLYGIAD Y PLENTYN; BWYD A MAETH; TECSTILAU

Rhaid anfon taflenni marciau'r sampl safoni a'r taflenni clawr gyda'r samplau o waith a'u hanfon at y safonwr erbyn **dydd Iau, 5 Mai.** Rhaid anfon samplau Tecstilau i CBAC yn Nhrefforest.

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol o'r llyfryn "Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Chynnal Arholiadau Lletygarwch ac Arlwyo ac Economeg y Cartref 2011" a gyhoeddwyd ar y wefan ddiogel.

FFISEG

At ddibenion safoni, ymdrinnir â TGAU Ffiseg ar wahân i TGAU Bioleg, Cemeg, Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol.

Dylid anfon samplau safoni ar wahân i ymgeiswyr a gofrestrir am yr opsiwn 248/01(3 tasg ymarferol) ac i'r rhai a gofrestrir am yr opsiwn 248/02 (gydag Adroddiad Estynedig).

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl(au) o waith cwrs, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 6 Mai**.

(i) taflen farciau sampl safoni S5a (opsiwn 248/01) a S5b (opsiwn 248/02);
(ii) cerdyn cofnod ymgeisydd gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iii) trefn restrol o farciau ymgeiswyr, gyda'r rhai sydd yn y sampl safoni wedi'u hamlygu.

FFRANGEG, ALMAENEG A SBAENEG

Dylid cynnwys y canlynol ar gyfer yr asesiad dan reolaeth (Siarad), i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Iau, 5 Mai**:

(i) CD yn cynnwys un dasg siarad gan bob ymgeisydd yn y sampl;
(ii) taflen farciau'r Sgwrs Strwythuredig neu'r Cyflwyniad (wedi'i lwytho i lawr o'r wefan);
(iii) Taflen farciau gyfansawdd y sampl (wedi'i llwytho i lawr o'r wefan).

GWYDDONIAETH

At ddibenion safoni, ymdrinnir â TGAU Gwyddoniaeth ar wahân i TGAU Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Gwyddoniaeth Ychwanegol.

Dylid anfon samplau safoni ar wahân i ymgeiswyr a gofrestrir am yr opsiwn 238/01 (3 tasg ymarferol) ac i'r rhai a gofrestrir am yr opsiwn 238/02 (gydag Adroddiad Estynedig).

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl(au) o waith cwrs, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 6 Mai**.

(i) taflen farciau sampl safoni S1a (opsiwn 238/01) a S1b (opsiwn 238/02);
(ii) cerdyn cofnod ymgeisydd gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iii) trefn restrol o farciau ymgeiswyr, gyda'r rhai sydd yn y sampl safoni wedi'u hamlygu.

GWYDDONIAETH YCHWANEGOL

I ddibenion safoni, ymdrinnir â TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol ar wahân i TGAU Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Gwyddoniaeth.

Dylid anfon samplau safoni ar wahân i ymgeiswyr a gofrestrir am yr opsiwn 242/01(3 tasg ymarferol) ac i'r rhai a gofrestrir am yr opsiwn 242/02 (gydag Adroddiad Estynedig).

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r sampl(au) o waith cwrs, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 6 Mai**.

(i) taflen farciau sampl safoni S2a (opsiwn 242/01) a S2b (opsiwn 242/02);
(ii) cerdyn cofnod ymgeisydd gyda gwaith pob ymgeisydd;
(iii) trefn restrol o farciau ymgeiswyr, gyda'r rhai sydd yn y sampl safoni wedi'u hamlygu.

LLETYGARWCH AC ARLWYO

Mae gofyn i athrawon gyflwyno sampl o waith ymgeiswyr i'w safoni fel a ganlyn:

Uned 1 Tasgau 1 a 2 Lletygarwch ac Arlwyo: **Arlwyo Gradd Unigol**

Uned 3 Tasg Digwyddiad Lletygarwch ac Arlwyo: **Lletygarwch Gradd Unigol**

Uned 1 (Tasg 1 a 2) ac Uned 3 Lletygarwch ac Arlwyo: **Dwyradd**

Rhaid i'r gwaith gael ei farcio'n fewnol a'i gymedroli (os yn berthnasol) mewn da bryd i'w anfon at safonwr CBAC erbyn dydd Iau, 5 Mai.

Bydd athrawon yn asesu'r gwaith gan ddefnyddio'r meini prawf dyrannu marciau a gyhoeddwyd yn y fanyleb.

- Rhaid atodi'r daflen glawr briodol â gwaith pob ymgeisydd ond ni ddylid ei styffylu gan y bydd y safonwr yn ei dynnu oddiar y gwaith.
- Gwnewch yn siŵr fod modd adnabod pob taflen ar ôl tynnu'r daflen glawr.
- Rhestrwch yr ymgeiswyr yn eu trefn restrol.

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol o'r llyfryn "Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Chynnal Arholiadau Lletygarwch ac Arlwyo ac Economeg y Cartref 2011" a gyhoeddwyd ar y wefan.

Noder: Bydd enwau a chyfeiriadau safonwyr ar gael ar y wefan ddiogel o ddiwedd mis Chwefror 2011. Anogir canolfannau i anfon y gwaith at y safonwyr cyn 5 Mai os yn bosibl.

****SAESNEG a *LLENYDDIAETH SAESNEG**

Cyflwyno Marciau

Dilynir y drefn ar-lein newydd wrth gyflwyno marciau a dethol ymgeiswyr sampl safoni y gwaith cwrs ysgrifenedig.

Pan mae mwyafrif y cofrestriad yn cynnwys grwpiau dysgu Blwyddyn 11, rhaid rhoi marciau'r ymgeiswyr hyn ar y wefan ddiogel ac anfon y ffolderi at y safonwr erbyn dydd Gwener, 25 Mawrth. Yn yr achos hwn, seilir y drefn safoni ar yr ymgeiswyr hyn; bydd y system yn caniatáu ychwanegu marciau ymgeiswyr eraill yn nes ymlaen. Er mwyn galluogi'r system i ddethol sampl o ymgeiswyr Blwyddyn 11, defnyddiwch "G" (Gohiriwyd) i ddynodi ymgeiswyr "blwyddyn". Bydd hyn yn caniatáu ychwanegu marciau'n ddiweddarach.

Pan mae mwyafrif y cofrestriad yn cynnwys cyrsiau blwyddyn (ymgeiswyr Blwyddyn 10 neu ôl 16+), rhaid rhoi'r marciau ar y wefan ddiogel ac anfon ffolderi at y safonwr erbyn dydd Gwener 29 Ebrill.

Rhaid rhoi marciau Siarad a Gwrando i mewn ar-lein erbyn dydd Gwener, 15 Mai. Noder nad oes gofyn i chi anfon cofnodion Siarad a Gwrando at y safonwr.

Dewis y Sampl

Oherwydd bod gwaith cwrs y ddau bwnc yn gorgyffwrdd, cydlynir safoni *Saesneg* a *Llenyddiaeth Saesneg*.

Bydd y system yn dewis sampl yn unol â fformiwla trefn restrol arferol CBAC ac yn ei gymhwyso at y cofrestriad Saesneg ac yn sicrhau bod ganddo ymdriniaeth o waith pob athro/athrawes. Gellir ond newid y detholiad hwn yn yr amgylchiadau canlynol:

- Ni ddylid anfon ffolderi anghyflawn at y safonwr; yn yr achos hwn dylid dewis ac anfon ffolder ar yr un marc neu farc cyfagos;
- Bydd y sampl fel arfer yn cynnwys isafswm o 3 ffolder i bob athro. Mewn canolfannau mwy, os dewisir mwy na 30 ffolder wrth wneud hyn, gellir lleihau'r sampl i 30 ar yr amod y dewisir 2 ffolder i bob athro.
- Bydd y system sy'n cael ei defnyddio'n dewis ffolderi'n seiliedig ar y cofrestriad Saesneg. Os yw cyfran fawr o'r marciau a gyflwynir yn yr Haf 2011 yn rhai Llenyddiaeth Saesneg yn unig (e.e. gyda chyfran fawr o'r marciau Saesneg yn cael eu trosglwyddo) dylid dewis ffolderi Llenyddiaeth Saesneg ychwanegol er mwyn i'r sampl gyfan gyrraedd y maint arferol (gweler 2.3).

Am gyfarwyddiadau ar sut i ddynodi bod ffolder(i) ychwanegol wedi cynnwys, gweler Rhan 4.

D.S. Os newidir y dewis am un o'r rhesymau uchod, mae'n hanfodol anfon nodyn o eglurhad at y safonwr.

Anfon Gwaith at y Safonwr

Lle y cynigir am y ddau bwnc, bydd gwaith yr ymgeisydd yn cael ei gyflwyno fel un blygell gyda'r daflen glawr am *Saesneg* (E2) wedi'i dilyn gan y pedwar darn ac yna'r daflen glawr *Llenyddiaeth Saesneg* (ELa2/ELb2) wedi'i dilyn gan y darnau sy'n weddill. Dylid cyfeirio ar y daflen glawr *Llenyddiaeth Saesneg* at ddarnau a gynigir am y ddau bwnc; nid yw'n angenrheidiol llungopïo darnau o'r fath.

Yn ogystal â'r sampl, gofynnir i'r canolfannau anfon rhestrau dosbarthiadau'n dangos aelodaeth grŵp(iau) dysgu pob athro/athrawes.

***TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU (hen)**

Dewisir y sampl yn ôl y drefn restrol gyffredinol (gweler 2.3 am y fformiwla), yn seiliedig ar y cyfanswm gwaith cwrs (allan o 126) o'r portffolio a'r project.

Dylid cyflwyno'r canlynol gyda'r sampl gwaith cwrs, i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 29 Ebrill**:

(i) taflen farciau'r sampl safoni (ICT1);
(ii) taflen glawr y portffolio (ICT2);
(iii) taflen glawr y project (ICT3).

Noder y dylid rhestru enwau **pob** ymgeisydd, nid y rhai yn y sampl yn unig ar y ffurflen ICT1 yn eu trefn restrol ddisgynnol.

***TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU (CWRS BYR) (hen)**

Dewisir y sampl yn ôl y drefn restrol gyffredinol (gweler 2.3 am y fformiwla), yn seiliedig ar y cyfanswm am y portffolio (allan o 63).

Dylid cyflwyno'r canlynol gyda'r gwaith cwrs i gyrraedd y safonwr erbyn **dydd Gwener, 29 Ebrill**:

(i) taflen farciau'r sampl safoni (ICTsc1);
(ii) taflen glawr y portffolio (ICTsc2).

Noder y dylid rhestru enwau **pob** ymgeisydd, nid y rhai yn y sampl yn unig ar y ffurflen ICTsc1 yn eu trefn restrol ddisgynnol.

TGAU Cymhwysol

Dylid dewis sampl pob uned bortffolio gan ddefnyddio'r fformiwla (gweler 2.3).

Dylid cynnwys y canlynol gyda'r portffolios yn y sampl, i gyrraedd y safonwyr erbyn **dydd Gwener, 6 Mai**:

(i) Taflen Sampl y Portffolio i bob uned a gyflwynir;
(ii) Taflen Glawr i bob portffolio a gyflwynir.

Dangosir yn y tabl isod y codau adnabod ar gyfer y taflenni sampl portffolio a'r taflenni clawr. Mae lle gwag ar bob *taflen sampl* i ganolfannau nodi'r uned y mae'n cyfeirio ati. Cyhoeddir *taflenni clawr* ar wahân i bob uned.

Pwnc	*Taflen Sampl y Portffolio*	*Taflen(ni) Glawr*
Gwyddoniaeth Gymhwysol	APS	Portffolio Uned 1/Portffolio Uned 3
Gwyddoniaeth Gymhwysol Ychwanegol	APS	Portffolio Uned 1
†TGCh Cymhwysol	ICT	Portffolio 1/Portffolio 2

† Cynigir yr uned TGCh Cymhwysol hon am y tro olaf yn yr haf 2011.

UG/SAFON UWCH

Dylid cyfeirio at y manylebau pwnc am fanylion gofynion cynnwys a chyflwyno'r gwaith. Mae'r nodiadau canlynol yn codi unrhyw bwyntiau mewn perthynas â'r gweithdrefnau gweinyddol cyffredinol a gynhwysir yn y llyfryn hwn. Os nad yw pwnc yn cael ei grybwyll isod gellir cymryd y gweithredir y cyfarwyddiadau cyffredinol hyn.

DRAMA

Dylid rhestru pob ymgeisydd yn eu trefn restrol ar y daflen farciau gyfansawdd. Dylid cyflwyno DVD yn dangos gwaith ymarferol yr ymgeiswyr **i gyd** i'r safonwr ynghyd â thaflenni marciau'r ymgeiswyr unigol. Dylid anfon y deunyddiau hyn at y safonwr erbyn **15 Mai.**

RHAN 6 – ARWEINIAD YNGLŶN Â THREFNIADAU CONSORTIWM

Efallai y bydd rhai canolfannau'n ymwneud â threfniadau consortiwm i un neu fwy o fanylebau. Bydd hyn fel arfer yn digwydd pan fydd grŵp o ganolfannau'n sefydlu trefniadau addysgu ar y cyd mewn pwnc, a'r ymgeiswyr yn mynychu un ganolfan i'w haddysgu. Gellir felly ystyried yr ymgeiswyr fel un grŵp i bwrpasau safoni asesiad mewnol.

Mewn rhai trefniadau consortiwm, dilynir yr arfer o gofrestru ymgeiswyr am unedau asesiad mewnol gan y ganolfan addysgu. Pan fydd hyn yn digwydd, y ganolfan addysgu fydd yn gwneud yr holl weinyddu ac nid oes angen dilyn unrhyw drefn arbennig.

Mewn llawer o drefniadau consortiwm, fodd bynnag, y ganolfan lle mae'r ymgeiswyr wedi ymrestru ("y ganolfan gartref") fydd yn gwneud yr holl gofrestriadau angenrheidiol. Yn yr achos hwn, rhaid dilyn y drefn ychwanegol a amlinellir isod er mwyn gallu trin yr ymgeiswyr fel un grŵp i bwrpasau safoni asesiad mewnol.

Rhaid i ganolfannau sy'n ymwneud â threfniadau consortiwm wneud y canlynol:

- Penodi cydlynydd i gysylltu â'r corff dyfarnu ar ran pob canolfan yn y consortiwm

- Llenwi ffurflen JCQ/CCA a'i chyflwyno i CBAC cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn academaidd, ond erbyn 1 Rhagfyr fan bellaf

- Gwneud yn siŵr bod yr ymgeiswyr i gyd yn y consortiwm yn cael eu trin fel un grŵp at ddiben asesu mewnol a dethol y sampl

- Trefnu i holl farciau'r holl ymgeiswyr gael eu cyflwyno i CBAC. Dylid nodi y bydd ffurflenni C, lle'n berthnasol, yn cael eu hanfon i'r ganolfan lle <u>cofrestrwyd</u> yr ymgeiswyr, felly gall canolfannau naill ai (a) cael y marciau gan y ganolfan addysgu a chyflwyno'r ffurflenni C i CBAC yn uniongyrchol, neu (b) trosglwyddo'r ffurflenni C i gydlynydd y consortiwm i'w llenwi.

Ar ôl i CBAC dderbyn ffurflen JCQ/CCA, bydd yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr un safonwr yn cael ei benodi i bob canolfan yn y consortiwm a chysylltu â chydlynydd y consortiwm ynglŷn â threfniadau safoni

- Cynghori safonwyr y bydd un sampl safoni'n cael ei dewis a'i hanfon i'r consortiwm yn gyffredinol

- Sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r marciau sy'n digwydd yn ystod y safoni'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y consortiwm.

DS – Mae'r trefniadau hyn yn cymryd yn ganiataol bod yr holl ymgeiswyr a gofrestrir ym mhob canolfan yn y consortiwm yn cael eu haddysgu yn yr <u>un</u> ganolfan addysgu. O dro i dro fodd bynnag, efallai y bydd gan ganolfan drefniadau mwy cymhleth lle y bydd gwahanol grwpiau o ymgeiswyr i'r un fanyleb yn mynychu gwahanol ganolfannau addysgu. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen i CBAC gael manylion llawn yr ymgeiswyr sy'n mynychu pob canolfan gyda'r ffurflen JCQ/CCA.

Cynghorir y canolfannau hynny sy'n ymwneud â threfniadau o'r fath felly i gysylltu â CBAC i sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu cwrdd.